ASIANTAETH SAFONAU BWYD

Amdanom ni

Eich canllaw i'r
Asiantaeth Safonau Bwyd

Pwy ydym ni

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn adran annibynnol o'r Llywodraeth, a sefydlwyd gan Ddeddf Seneddol yn 2000 i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

Rydym yn ymdrin â phob agwedd ar ddiogelwch a safonau bwyd ar hyd y gadwyn fwyd.

Fel adran anweinidogol o'r Llywodraeth, rheolir yr Asiantaeth Safonau Bwyd gan Gadeirydd annibynnol, gyda Bwrdd anweithredol, sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol cyffredinol yr Asiantaeth ac am sicrhau ei bod yn bodloni ei rhwymedigaethau cyfreithiol. Rheolir ein gweithrediadau o ddydd i ddydd gan Brif Weithredwr, a gefnogir gan Fwrdd Rheoli Gweithredol.

Mae'r Bwrdd hefyd yn rhoi cyngor annibynnol i Weinidogion Iechyd ar faterion sy'n ymwneud â bwyd. Mae'n atebol i'r Senedd drwy'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, ac i Weinidogion Iechyd, yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Y Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) yw ein hasiantaeth weithredol. Mae'n darparu gwasanaeth archwilio cig i bob safle cig trwyddedig ac mae'n sicrhau y bodlonir safonau ar gyfer cynhyrchu cig yn ddiogel a lles anifeiliaid. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (DARD) yn cyflawni hyn.

Yr hyn a wnawn

Defnyddiwn y dystiolaeth orau sydd ar gael a gweithiwn gyda:

- Busnesau - o'r pridd i'r plât er mwyn eu helpu i gadw defnyddwyr yn ddiogel
- Awdurdodau lleol a chyrff gorfodi cyfraith bwyd eraill - er mwyn eu helpu i gymryd camau cymesur ac amserol gan ddiogelu defnyddwyr
- Defnyddwyr - i roi gwybodaeth ddibynadwy a chyfredol er mwyn eu helpu i wneud dewisiadau iach am fwyd

Hefyd:

- Trafodwn gyfraith bwyd yn yr Undeb Ewropeaidd ar ran llywodraeth y DU er mwyn cyflwyno cyfraith bwyd effeithiol a chymesur yr UE
- Rydym yn drafftio ac yn gweithredu'r rhan fwyaf o gyfraith bwyd a bwydydd anifeiliaid yr UE
- Darparwn arweiniad a chyngor i fusnesau bwyd ar sut i gydymffurfio â'r gyfraith
- Gweithiwn gyda chyrff gorfodi i orfodi'r gyfraith yn effeithiol
- Darparwn wybodaeth a chyngor eang iawn ar ddiogelwch bwyd a maeth i'r cyhoedd, gweithwyr iechyd proffesiynol, y diwydiant bwyd a'r cyhoedd drwy ein cyhoeddiadau, gwefannau, ymgyrchoedd a'n digwyddiadau

Cefnogir ein gwaith gan ymchwil helaeth, ymgynghoriadau a chasglu tystiolaeth.

Ein gweledigaeth:

‘Bwyd diogel a bwyta’n iach i bawb’

Ein Gwerthoedd:

- Rhoi’r defnyddiwr yn gyntaf
- Bod yn agored ac yn annibynnol
- Yn seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth

Ein nodau strategol hyd at 2010:

- Gwella iechyd y cyhoedd drwy wneud bwyd yn fwy diogel
- Lleihau clefydau sy’n gysylltiedig â diet drwy helpu defnyddwyr i sicrhau a chynnal diet cytbwys, iachach
- Labelu a gwybodaeth effeithiol er mwyn galluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau hyddysg am fwyd
- Diogelu defnyddwyr yn well rhag twyll bwyd ac arferion anghyfreithlon
- Bod yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol fel un o Adrannau Anweinidogol y Llywodraeth ac fel corff rheoleiddio annibynnol

Ein rhanddeiliaid

Rydym yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid wrth gyflawni ein gwaith. Rhennir llawer o'n hamcanion ac mae partneriaeth yn hanfodol i'w cyflawni. Mae ein partneriaid a'n rhanddeiliaid yn cynnwys:

- Defnyddwyr, sefydliadau defnyddwyr
- Awdurdodau lleol a chyrff gorfodi
- Y diwydiant bwyd
- Sefydliadau anllywodraethol
- Adrannau eraill o'r Llywodraeth a llywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon

Ein staff

Mae gan yr Asiantaeth tua 2,295 o aelodau o staff ledled y DU: tua 675 yn ein pencadlys, tua 30 yng Nghymru, tua 75 yn yr Alban a thua 35 yng Ngogledd Iwerddon. Mae gan y Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) 1,480 o aelodau o staff.

Egluro rhagor i mi

I ddysgu mwy am ein gwaith, ein strategaeth a'n cyhoeddiadau:
www.food.gov.uk

I ddysgu mwy am fwyta'n iach, materion yn ymwneud ag iechyd, cadw bwyd yn ddiogel a labeli bwyd:
www.eatwell.gov.uk

Rhif ffôn y llinell gymorth: **020 7276 8829**

Cyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd

Er mwyn archebu rhagor o gopïau o'r llyfryn hwn neu gyhoeddiadau eraill a gynhyrchir gan yr Asiantaeth, cysylltwch â Chyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd:

Ffôn 0845 606 0667
Minicom 0845 606 0678
Ffacs 020 8867 3225
E-bost foodstandards@ecgroup.co.uk

Cyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd Awst 2007

(h) Hawlfraint y Goron 2007
Argraffwyd yn y DU

FSA/1204/0907
Papur sy'n cynnwys isafswm o 75% o ffeibr wedi'i ailgylchu